Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
# Coleg Cambria
# Ffordd Parc y Gelli
# Wrecsam
# LL12 7AB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i Oedolion a sefydlwyd canolfan genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr yn ystod 2016. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, sy’n bartneriaeth rhwng Coleg Cambria a chwmni Popeth Cymraeg, yn ystod yr ad-drefnu hwn.

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn derbyn grant craidd £1,066,320 yn ystod 2019/2020 gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu Cymraeg i Oedolion yn ardaloedd Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae’n darparu ystod o gyrsiau gwahanol ar lefelau Mynediad i Hyfedredd, gan gynnwys cyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion, Cymraeg yn y Gweithle a Cymraeg Gwaith. Mae hefyd yn darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr ymarfer ac ymestyn eu medrau Cymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth. Yn ystod 2018/19, ymrestrodd 1513 o oedolion ar gyrsiau’r darparwr.

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn cyflogi 55 o staff, tua hanner yn diwtoriaid rhan amser. Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Y Gymraeg a Rhyngwladol, Coleg Cambria sy’n gyfrifol am arwain y darparwr yn weithredol ac yn strategol.

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain weledigaeth glir a phwrpasol i brif ffrydio Cymraeg i Oedolion ar draws Coleg Cambria. Mae'n cefnogi'r Coleg yn strategol ac yn weithredol i weithio tuag at nodau Llywodraeth Cymru yn ei pholisi Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Mae'r darparwr wedi llwyddo i greu lefelau uchel o ofal a chymorth i ddysgwyr. Mae bron pob tiwtor yn meithrin perthnasoedd gwaith hynod gynhyrchiol a chefnogol gyda'r dysgwyr. Mae'r tiwtoriaid yn meithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol ac yn atgyfnerthu cymunedau dysgu cynhwysol a chynhaliol. Drwy arddel arddull dysgu egnïol a brwdfrydig, maent yn galluogi ac ennyn ymateb adeiladol y dysgwyr. Maent yn tanio brwdfrydedd y dysgwyr ac mae llawer ohonynt yn datblygu medrau'r dysgwyr yn llwyddiannus mewn ystod greadigol o weithgareddau.

Mae ymroddiad, gofal ac agwedd gynhwysol staff y darparwr yn cael eu hadlewyrchu yn agweddau hynod gadarnhaol y dysgwyr tuag at ddysgu'r iaith Gymraeg. Mae bron pob dysgwr yn gwbl glir ynglŷn â pham maent yn dysgu'r iaith ac mae eu hangerdd a'u hargyhoeddiad yn ysbrydoledig. O ganlyniad, mae dysgwyr yn mwynhau'r profiad o ddysgu'n fawr iawn ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n gryf bod y cyrsiau yn helpu iddynt gyflawni eu nodau personol. Mae dysgwyr ar draws y lefelau'n gynyddol hyderus ac yn uchelgeisiol o ran cyflawni rhuglder yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn ddigymell â'r tiwtor ac â'i gilydd yn unol â'u lefel. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn yr enghreifftiau gorau, maent, yn annibynnol ar y darparwr, yn cymryd cyfrifoldeb dros drefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr eraill ymarfer y Gymraeg yn gymunedol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu eu medrau llafaredd hyd eithaf eu gallu

A2 Lledaenu'r arferion addysgu gorau ar draws y darparwr er mwyn sicrhau cysondeb yn y dysgu ac addysgu ym mhob agwedd ar brofiad y dysgwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r cyfraniad mae'n ei wneud, ar lefel strategol a chorfforaethol, o fewn Coleg Cambria tuag at gyflawni nodau Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn medru mynegi'n glir, gydag argyhoeddiad, pam maent yn dysgu'r iaith Gymraeg. Maent yn hynod frwdfrydig ac yn cyfranogi'n gadarnhaol yn eu gwersi. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf tuag at gyflawni eu nodau personol.

Yn y gwersi, mae bron pob un dysgwr yn gwrando'n astud ac yn deall iaith eu tiwtoriaid yn dda ac maent yn ymateb i sbardunau llafar yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn adeiladu arno'n fuddiol drwy gymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd gwahanol yn effeithiol.

Yn unol â'u lefel ieithyddol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn ddigymell â'r tiwtor ac â'i gilydd. Ar y cyfan, mae dysgwyr ar draws y lefelau'n gynyddol hyderus ac yn uchelgeisiol o ran cyflawni rhuglder yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac yn defnyddio adnoddau electronig, geiriaduron a'r cyfryngau cymdeithasol i ymestyn eu medrau ieithyddol yn fuddiol. Manteisia mwyafrif y dysgwyr ar gyfleoedd dysgu anffurfiol ac atodol er mwyn atgyfnerthu eu gallu cyfathrebol yn ddefnyddiol.

Ar y cyfan, mae dysgwyr yn ynganu'n briodol. Mae llawer ohonynt yn datblygu'n siaradwyr hyderus sy'n medru mynegi barn yn bwrpasol, yn unol â'u lefel ieithyddol. Maent yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o gystrawennau ac amseroedd y ferf yn fuddiol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr, ar draws y lefelau, yn dueddol o gynnig atebion byrion yn hytrach nag ymestyn eu hatebion.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn wrth gaffael patrymau elfennol i gyfathrebu ar lafar yn addas. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o gyrsiau canolradd ymlaen yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o strwythurau a gramadeg y Gymraeg. Mae dysgwyr ar lefel hyfedredd yn datblygu'n siaradwyr cymwys all gyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau diddorol ar bynciau haniaethol, fel morffoleg ac orgraff yr iaith Gymraeg.

Mae llawer o ddysgwyr ar bob lefel yn datblygu eu medrau darllen yn werthfawr. Ar lefelau mynediad a sylfaen, maent yn llwyddo i ddarllen brawddegau byrion ac yn medru darllen ar goedd yn briodol. Erbyn lefelau canolradd ac uwch, maent yn darllen yn gynyddol hyderus ac yn medru clustnodi a lleoli patrymau, gwallau ac elfennau gramadegol o fewn testunau cyfarwydd megis llythyrau. Mae llawer o ddysgwyr ar lefel uwch yn deall ystod eang o destunau ffeithiol a dychmygol yn gadarn. Maent yn darllen testunau ar gyfer dysgwyr yn ogystal â nofelau heriol ar gyfer siaradwyr rhugl. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar lefel hyfedredd yn dangos lefel uchel iawn o ddealltwriaeth wrth drafod llyfrau amrywiol. Maent yn cyfuno medrau darllen a llafaredd yn effeithiol i drafod themâu heriol, er enghraifft dementia a rhywioldeb

Ar draws y gwahanol lefelau, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol. Mae dysgwyr lefel mynediad yn llenwi bylchau ac ysgrifennu brawddegau elfennol yn gywir ar y cyfan. Erbyn lefel sylfaen, mae'r rhan fwyaf o

ddysgwyr yn dechrau ymgyfarwyddo'n fwyfwy â'r iaith ac yn medru cyfnewid berfau o'r ail berson unigol i'r ail berson lluosog yn gywir. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r modd gorchmynnol yn bwrpasol i ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i baratoi bwydydd. Llwydda llawer o ddysgwyr canolradd ac uwch i ddechrau ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol fel cerddi, deialogau ac adolygiadau o lyfrau. Maent yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio ystod eang o amseroedd y ferf yn ystyrlon, gan gynnwys y gorffennol cryno, yr amherffaith, y dyfodol cwmpasog, y dyfodol cryno a'r amhersonol. Erbyn iddynt gyrraedd y lefel hyfedredd, mae llawer o ddysgwyr yn medru cynhyrchu darnau aeddfed a soffistigedig sy'n dangos ystwythder a huodledd ieithyddol. Maent yn mynegi barn yn effeithiol gan ddefnyddio geirfa gyfoethog yn bwrpasol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r dysgwyr hyn yn cyfuno medrau'n greadigol gan greu cyflwyniadau electronig sy'n seiliedig ar ymchwil personol, fel eu hanes teuluol.

Mae llawer o ddysgwyr, ar draws y lefelau, yn cwblhau eu cyrsiau ac yn symud ymlaen i gyrsiau dilynol. Yn ystod 2018-19, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar lefelau canolradd, uwch a hyfedredd wedi cwblhau. Mae lleiafrif o ddysgwyr cymwys yn sefyll arholiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn llwyddo yn yr arholiadau, gyda thua hanner ohonynt yn ennill rhagoriaeth.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn gymuned gynhaliol a chynhwysol lle mae bron pob dysgwr yn wir fwynhau ac yn dangos brwdfrydedd amlwg at bob elfen o'r dysgu. Mae bron pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gyngor arnynt. Mae bron pawb yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan diwtoriaid yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth. Maent yn gwerthfawrogi'r ymateb a gweithredu cadarnhaol gan y darparwr i'w hangenion addysgol a phersonol. Mae'r dysgwyr yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd gwerthfawr i drafod eu cynnydd yn erbyn eu targedau personol yn 'Defnyddio fy Nghymraeg' mewn cyfarfodydd un-i-un tymhorol gyda'u tiwtoriaid.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r drefn gwyno a chanmol ac mae bron pawb yn teimlo'n gryf bod y darparwr yn gwrando ar eu llais yn gyson er eu budd personol ac addysgol. Er enghraifft, yn sgil adborth gan ddysgwyr, sicrhawyd goleuo priodol yn y nos mewn un lleoliad. Yn ogystal, yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn dylanwadu ar gynnwys gweithgareddau ac yn cyfrannu at benderfynu ar yr hyn maent yn ei ddysgu yn fuddiol.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi bod eu medrau bywyd yn cael eu cyfoethogi a'u hymestyn drwy ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y dysgwyr hynny. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cael boddhad mawr o farddoni drwy gyfrwng y Gymraeg a darllen nofelau cyfoes. Maent yn teimlo'n rhan bwysig eithriadol o gymuned y dosbarth ac o ganlyniad, mae bron pawb yn gefnogol iawn i'w gilydd ac maent yn dangos parch arbennig at ei gilydd ac at farn eraill yn y dosbarth. Maent yn hynod groesawgar wrth ymgysylltu ag ymwelwyr i'r dosbarth gan ddangos sgiliau gofyn cwestiynau caboledig, ac maent yn dangos chwilfrydedd brwd i ymestyn eu gwybodaeth. Mae bron pawb yn teimlo'n hapus a chartrefol yn y gwersi, gan ddangos mwynhad amlwg, heb ofni gwneud camgymeriadau oherwydd naws gefnogol a chynhaliol y dosbarthiadau.

Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn ddigymell â'i gilydd yn unol â'u lefel, ac ar draws yr ystod o lefelau, mae'r dysgwr yn hapus i ryngweithio mewn pâr neu grŵp ac yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n effeithiol yn unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn uchelgeisiol ac yn dangos cymhelliant cryf iawn, er enghraifft i siarad Cymraeg yn y gweithle, gyda ffrindiau, a gyda'u teuluoedd. Maent yn canolbwyntio yn ystod y gwersi ac yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn dysgu a defnyddio elfennau ieithyddol newydd. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn dangos ymroddiad eithriadol, gydag enghreifftiau o ddysgwyr yn teithio oriau yn wythnosol i fynychu dosbarth.

Defnyddia'r dysgwyr gyfryngau cymdeithasol yn gyson i ymgysylltu â'i gilydd mewn grwpiau er mwyn cefnogi ei gilydd y tu allan i'r dosbarth a threfnu i fynychu digwyddiadau cymdeithasol. Mae llawer yn mynychu naill ai cyrsiau atodol neu'n defnyddio gweithgareddau ar-lein ac apiau i gefnogi eu dysgu yn gyson.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi. Mae llawer o ddysgwyr ar y lefelau uwch yn dangos awydd mawr i gymathu â'r gymuned Gymraeg drwy fynychu cymdeithasau Cymraeg a gweithgareddau diwylliannol amrywiol fel dosbarth cynganeddu a chorau lleol er mwyn ymestyn eu cyswllt â'r iaith a'r diwylliant yn fuddiol iawn. Mae mwyafrif y dysgwyr yn manteisio ar, ac yn cael budd o, fynychu digwyddiadau cefnogi dysgwyr. Er enghraifft, mynychodd nifer sylweddol o ddysgwyr yr ardal sgwrs cyn sioe ar gynhyrchiad theatrig o'r nofel Llyfr Glas Nebo. Mae ychydig o ddysgwyr, yn annibynnol ar y darparwr, yn cymryd cyfrifoldeb dros drefnu cyfleoedd gwerthfawr, fel sesiynau sgwrsio, i ddysgwyr eraill ymarfer y Gymraeg yn gymunedol. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a rhagweithiol. Er enghraifft, mae esiampl nodedig o ddysgwyr yn cydweithio â mentrau iaith i geisio am grant i ddatblygu cymunedau dwyieithog . Ar sail y grant hwn, maent wedi agor cyfrif banc er mwyn trefnu teithiau a digwyddiadau cyffrous i ddysgwyr eu hardal.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r tiwtoriaid yn datblygu perthynas adeiladol a chynhwysol gan greu cymuned o ddysgwyr brwdfrydig sy'n ymfalchïo yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau diddordeb ac ymlyniad y dysgwyr i weledigaeth a chenhadaeth y darparwr. O ganlyniad, mae hyn yn gosod y dysgwyr ar lwybr clir tuag at ddod yn siaradwyr hyderus a gweithredol yn eu cymunedau.

Mae'r tiwtoriaid yn meithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol ac yn atgyfnerthu cymunedau dysgu cynhwysol a chynhaliol. Mae bron pob tiwtor yn arddel arddull addysgu egnïol a brwdfrydig sy'n eu galluogi i ennyn ymateb adeiladol y dysgwyr. Maent yn tanio brwdfrydedd ac yn datblygu medrau'r dysgwyr yn llwyddiannus mewn ystod greadigol o weithgareddau. Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn modelu iaith a phatrymau cystrawennol yn effeithiol sy'n addas ar gyfer lefel pob dysgwr. Gwneir defnydd pwrpasol a chyson o'r iaith darged yn y dosbarthiadau sy'n cyfrannu at gyflawniad medrus y dysgwyr. Mae gan ran fwyaf y tiwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'r dysgwyr sydd, yn ei dro, yn codi uchelgais y dysgwyr. Mae'r darparwr yn cynllunio cyfleoedd addas i diwtoriaid gydweithio sy'n eu galluogi i arsylwi ac efelychu arferion da. Yn yr arfer orau, mae llawer o diwtoriaid yn arddel arfer o ansawdd uchel, yn modelu iaith yn effeithiol ac yn sicrhau ynganiad cywir y dysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn glir ynghylch cenhadaeth y darparwr i gynhyrchu siaradwyr sy'n gynyddol hyderus i siarad Cymraeg. Maent yn ysgogi'r dysgwyr drwy ddefnydd o amryw weithgareddau a thechnegau sy'n adeiladu gallu'r dysgwyr i gyfathrebu'n hyderus. Enghraifft dda o hyn yw gallu'r dysgwyr ar lefelau uwch i holi gwestai gwadd am ei waith fel sylwebydd pêl-droed, gan ddefnyddio geirfa arbenigol a chyfoethog am faes cyfathrebu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu ac ymestyn eu medrau darllen trwy eu hannog i ddarllen ystod o ddeunyddiau a chyhoeddiadau cyfredol. Yn sgil hyn, mae dysgwyr mwy hyderus yn darllen nofelau Cymraeg safonol. Maent yn ymateb drwy ysgrifennu adolygiadau sy'n arwain at symbylu trafodaeth â'u cyd-ddysgwyr. Darperir cyfleodd cyson wrth annog y dysgwyr i gofnodi profiadau personol sy'n arwain at hyder y dysgwyr i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig gwreiddiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae tiwtoriaid yn galluogi'r dysgwyr i gyflwyno gwaith creadigol i gystadlaethau a chyhoeddiadau lleol. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu'r dysgwyr yn datblygu'n effeithiol, gan gyfrannu'n gynhyrchiol at gyd-destunau diwylliannol lleol. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gyfoethogi'r dysgu yn y dosbarth. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cymell eu dysgwyr i ryngweithio â'i gilydd o fewn a thu allan i wersi. O ganlyniad, mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gymuned ddysgu weithredol.

Mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi'r dysgwyr yn effeithiol wrth holi'n fedrus a rhagweithiol, sy'n herio ac yn ymestyn y dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u hadnabyddiaeth o eirfa a phatrymau cystrawennol pwrpasol. Nid yw ychydig iawn o diwtoriaid yn herio dysgwyr digon i ymestyn medrau'r dysgwyr hyd eithaf eu gallu. Drwy weithgareddau pâr a grwpiau bychain, mae'r arfer o gydweithio yn y dosbarth yn arwain at greu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhaliol. O sefydlu'r amgylchedd hwn, mae llawer o diwtoriaid yn llwyddo i ymateb i wahanol ofynion y dysgwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig yn effeithiol. Mae hyn yn meithrin eu medrau yn ddatblygol ac yn arwain at gynnydd cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw adborth ar waith y dysgwyr yn ddigon clir bob tro o ran dangos i ddysgwyr sut i wella er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn elwa ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae'r darparwr yn cynnig arlwy amrywiol a phwrpasol o gyrsiau o fewn ei raglen, er enghraifft Cymraeg i'r Teulu a chyrsiau i weithleoedd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru. Maent hefyd yn cynnig rhaglen o ddigwyddiadau cefnogol bwriadus, sy'n cyflwyno'r dysgwyr i gyd-destunau a diwylliant Cymraeg yn effeithiol. Caiff y digwyddiadau hyn eu hyrwyddo yn effeithiol gan y darparwr drwy amryfal gyfryngau. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau a datblygiad y dysgwyr yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'n atgyfnerthu bwriadau creiddiol y darparwr, ac yn ysgogi brwdfrydedd a gwerthfawrogiad amlwg y dysgwyr. Enghraifft nodedig o'r brwdfrydedd hwn yw Eisteddfod y Dysgwyr sy'n cael ei chynnal yn flynyddol mewn lleoliadau gwahanol ar draws yr ardal. O fewn awyrgylch hwyliog a chefnogol yr Eisteddfod, caiff y dysgwyr gyfleoedd amrywiol i gystadlu yn ôl meysydd eu diddordeb, sy'n cynnwys tasgau ysgrifennu creadigol, gwaith celf a chystadlaethau llwyfan. Mae ysgogi'r dysgwyr i gystadlu yn ychwanegu at eu datblygiad ieithyddol ehangach a'u gwerthfawrogiad o ddiwylliannau Cymreig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol

Mae'r darparwr wedi llwyddo i greu cymuned glòs a chynhwysol sy'n cynnig gofal a chefnogaeth eithriadol i'w dysgwyr.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y cynnydd a wnânt, eu lles a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda iawn.  Maent yn dod i adnabod gallu a chynnydd eu dysgwyr yn gywir.  Ar sail hyn, mae ganddynt adnabyddiaeth dda iawn o anghenion unigol pob dysgwr yn y grwpiau y maent yn eu haddysgu.  O ganlyniad, mae cymhelliant y dysgwyr yn uchel iawn ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar y nifer sy'n parhau i gyrsiau dilynol.

Mae gan y ddarpariaeth systemau tracio tynn i fonitro presenoldeb yn ganolog.  Maent yn gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn mynychu gwersi ac yn parhau gyda'u dysgu.  Mae'r tiwtoriaid yn cysylltu'n gyson â'r dysgwyr sydd yn colli sesiynau er mwyn trefnu gwaith ychwanegol iddynt i sicrhau bod y dysgwr yn parhau â'r dysgu y tu allan i'r dosbarth.  Yn ogystal, mae'r darparwr yn trefnu sesiynau ymyrraeth gwerthfawr sy'n cynnig cymorth gwerthfawr i ddysgwyr sydd wedi colli cyfnodau hirach neu sydd mewn perygl o adael cwrs, er mwyn eu cefnogi i ddychwelyd i'r dosbarth.  I gynorthwyo dysgwyr i ymrestru ar gyrsiau, cynigir gostyngiadau arbennig i'r rhai sydd wedi mynychu cyrsiau atodol a disgownt 'Cyw Cynnar' i annog ymrwymiad i gyrsiau.

Mae'r darparwr yn cynnig cyngor effeithiol a di-duedd ar ddewis y cwrs sydd fwyaf perthnasol i ddysgwyr.  Mae hyn yn cynnwys cyngor dros y ffôn cyn cofrestru, prosbectws, manylion ar wefannau cymdeithasol a fideo i esbonio cynnwys cyrsiau amgen y ddarpariaeth.  Nodwedd gref yw'r hyblygrwydd i symud rhwng cyrsiau os nad yw'r cwrs yn addas neu os bydd amgylchiadau'n newid.

Mae prosesau cyfathrebu clir o fewn y ddarpariaeth i adnabod dysgwyr sydd angen cymorth personol ac arbenigol.  Yn ystod y cyfnod anwytho, mae perthynas adeiladol a chynhaliol yn cael ei chreu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn cymorth addas a chynhwysol.  Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr sydd ar y cyrsiau, ac yn sefyll arholiadau, yn derbyn pob cymorth i oresgyn rhwystrau.   Mae cynnal lefelau uchel o les y dysgwr a'r staff yn greiddiol i'r darparwr.  Mae bron bob tiwtor wedi derbyn hyfforddiant lles myfyrwyr a staff.  Ar sail yr hyfforddiant hwn, mae gan diwtoriaid strategaethau i'w cefnogi ac i gyfeirio dysgwyr at wasanaethau arbenigol o fewn y coleg.  Oherwydd ethos cynhaliol ac anogol y darparwr, mae dysgwyr wedi mabwysiadu cymuned ddysgu ofalgar sy'n cefnogi'i gilydd o fewn a thu hwnt i'r gwersi.

Mae'r tiwtoriaid yn sicrhau bod bron pob dysgwr yn gwneud defnydd effeithiol o 'Defnyddio fy Nghymraeg' a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol.  Maent yn cyd-osod targedau i herio'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth yn rheolaidd ac yn ei adolygu'n dymhorol drwy gyfarfodydd adeiladol un-i-un.  Mae tiwtoriaid yn angerddol am gadw diddordeb a chynnal dysgwyr drwy sicrhau eu bod yn cael profiadau cyfoethog wrth ddysgu Cymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn o fewn eu cymunedau.  Mae hyn yn cynnwys cwisiau rheolaidd, stiwardio yn yr Eisteddfod Genedlaethol, parti i ddathlu Santes Dwynwen a'r bardd Albanaidd Rabbie Burns ar y cyd, a charnifal llwyddiannus i'r teulu.  Mae'r darparwr yn cydweithio'n agos iawn â nifer o bartneriaid fel y mentrau iaith lleol, Canolfan Gymraeg Saith Seren a Merched y Wawr er mwyn creu cyfleoedd i'r dysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol yn eu cymunedau lleol.

Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gydag adran Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill y coleg a'r Hwb i Ffoaduriaid. O ganlyniad, mae'n cynnig cyrsiau i'r gymuned Portiwgaeaidd ac i ffoaduriaid sydd wedi mynychu cyrsiau blasu mewn caffi lleol. Mae gan rai ohonynt blant mewn ysgolion lleol ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ymgartrefu yn eu cymuned.

Mae'r darparwr wedi sefydlu cynllun clir i gywain barn y dysgwyr drwy wahodd bob dosbarth i ethol cynrychiolydd ar ddechrau'r cwrs. Mae holiadur yn cael ei anfon at y cynrychiolydd ddwywaith y flwyddyn er mwyn casglu ymateb y dysgwyr ar faterion amrywiol. O ganlyniad i ymatebion y cynrychiolydd dosbarth, mae'r darparwr yn gweithredu'n llwyddiannus er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gofal bugeiliol a darpariaeth addysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw datblygu mwy o sesiynau sgwrsio ym mhob gwers a chyfarfodydd un-i-un hynod fuddiol rhwng y tiwtor a'r dysgwr.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan arweinwyr Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain weledigaeth glir a hynod gadarn sydd yn canolbwyntio'n effeithiol iawn ar gynnydd a lles eu dysgwyr. Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol wrth arwain y ddarpariaeth ac mae ganddynt afael gadarn ar holl flaenoriaethau a gweithdrefnau rheolaethol y sefydliad. Maent yn rhoi arweiniad meistrolgar i'w cydweithwyr er mwyn sicrhau bod gwaith y darparwr o safon uchel. Mae eu blaenoriaethau'n cydymffurfio'n llwyddiannus â rhai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae perthynas waith ardderchog yn bodoli rhwng prif weithredwr y coleg a phennaeth y ddarpariaeth. Mae blaenoriaethau gwella'r darparwr yn cael eu cydnabod yng nghynlluniau datblygu'r coleg, gan sicrhau bod gwaith y darparwr yn rhan greiddiol o waith ehangach y sefydliad hwnnw. Enghraifft nodedig o hyn yw rôl Llywodraethwr Cyswllt Coleg Cambria ar gyfer y Gymraeg, sy'n sicrhau bod gan y corff llywodraethol wybodaeth werthfawr a chyfredol am y datblygiadau diweddaraf yng ngwaith y darparwr. Mae'r darparwr yn elwa o hyn gan ei fod yn defnyddio adnoddau a chysylltiadau'r coleg yn fuddiol i esblygu'r ddarpariaeth, yn ogystal â chefnogi'r coleg i gyflawni ei nodau i gynyddu niferoedd sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r darparwr wedi datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr sydd wedi eu seilio'n bwrpasol ar dystiolaeth uniongyrchol. Er enghraifft, mae arweinwyr a thiwtoriaid yn craffu ar raddfeydd presenoldeb dysgwyr gan weithredu'n briodol i sicrhau gwelliant.

Mae arweinwyr yn defnyddio data cofrestriadau, cwblhau, presenoldeb, dilyniant ac arholiadau er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion datblygiad y ddarpariaeth. Un enghraifft nodedig o hyn yw gafael gadarn iawn y darparwr ar ei system fugeiliol sy'n sicrhau cyfraddau uchel o ddilyniant ar gyrsiau lefelau uwch.

Mae gan arweinwyr systemau addas a thrwyadl ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ac maent yn adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu'n dda. Mae'r agweddau hyn yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu pwrpasol sy'n

amlinellu camau penodol i'w cyflwyno gan nodi'n glir y cyfrifoldebau arwain, y mesurau i ddynodi llwyddiant, a'r anghenion hyfforddiant. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr rheolaidd i staff y darparwr gyfrannu at y gwaith cynllunio strategol hwn trwy gyfrwng cynadleddau tymhorol, a thrwy gyfarfodydd staff fesul sir.

Mae gan y darparwr weithdrefnau effeithiol ar gyfer gwerthuso safonau addysgu ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol y staff. Mae arweinwyr yn arsylwi gwersi er mwyn adnabod cryfderau yng ngwaith unigolion, ac agweddau sydd angen eu datblygu all fod yn gyffredin ar gyfer nifer o diwtoriaid. Mae arweinwyr yn cyflawni gwaith effeithiol iawn wrth gasglu'r ffrydiau gwybodaeth amrywiol ynghyd er mwyn sicrhau bod ganddynt ddarlun cynhwysfawr o ansawdd yr addysgu a'r cynllunio. Yn sgil hyn, mae arweinwyr yn darparu cynllun hyfforddi gwerthfawr sy'n targedu meysydd cyffredinol sydd angen eu datblygu ymhlith staff. Mewn achosion unigol, mae gan y darparwr gynllun mentora buddiol sy'n cynnwys cyfleoedd i diwtoriaid addysgu ar y cyd er mwyn rhannu arferion da.

Er mwyn sicrhau cyfranogiad y tîm cyfan, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant ar adegau cyfleus i staff, gan gynnwys ar benwythnosau, ac yn darparu recordiadau o sesiynau hyfforddi ar e-lwyfannau. Mae gan y rheolwyr afael gadarn ar y modd mae staff yn cyfranogi o hyfforddiant ac maent yn cymryd camau pwrpasol i sicrhau bod pob aelod yn cael mynediad at yr arlwy, ac yn deall eu cyfrifoldebau. Mae gweithdrefnau ffurfiol rheoli perfformiad yn atgyfnerthu'r systemau hyn yn llwyddiannus, ac yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn addas. Mae arweinwyr yn darparu cefnogaeth dda i diwtoriaid newydd.

Mae gan y darparwr lefel briodol o staffio sy'n diwallu anghenion y ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r strwythur staff yn effeithiol ac mae cyfleoedd iddynt ddatblygu medrau arwain, er enghraifft wrth ddarparu cefnogaeth mentora ar gyfer cydweithwyr. Mae'r darparwr yn rheoli, dyrannu a defnyddio cyllid yn briodol ar draws y bartneriaeth, gan fonitro gwariant yn llwyddiannus yn unol ag amcanion cenedlaethol y sector. Mae budd ychwanegol i'r darparwr yn sgil mynediad at adnoddau ehangach y sefydliad cartref. Er enghraifft, mae'r darparwr yn derbyn cefnogaeth swyddogion cyllid, adnoddau dynol a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan Goleg Cambria. Oherwydd cyfrifoldebau ehangach pennaeth y ddarpariaeth o fewn y coleg, mae'r darparwr yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo pob agwedd o'r gwasanaeth. O ganlyniad, mae'n sicrhau bod Cymraeg i Oedolion yn cyflawni swyddogaeth allweddol a chreiddiol yng nghynlluniau strategol y coleg i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 9/06/2020